Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Y cam cyntaf yw'r anoddaf!

– newid yn yr hinsawdd i'r rheini nad ydynt yn fudiadau gwyrdd

Cynhadledd flynyddol WCVA 2009

3 Rhagfyr, Venue Cymru, Llandudno

Newid yn yr hinsawdd. Hwn yw'r un mawr – ond a yw i ni, pobl sy'n weithgar yn y trydydd sector yng Nghymru? Rydym ni'n brysur yn ceisio gwella bywydau a chymunedau, yn jyglo cyllid tymor byr a mân–argyfyngau mynych. Beth y gallwn ni ei wneud a fydd yn gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd?

Dyna'r drwg. Mae'r ddadl am y newid yn yr hinsawdd wedi cael ei heintio gyda chyfuniad gwenwynig o sinigiaeth a thynghediaeth ar bob lefel. Gall hyd yn oed pobl (a feiddiwn ddweud - fel chi?), sy'n llawn bwriadau da ac eisiau gwneud eu rhan, ganfod eu hunain yn sydyn yn teimlo'n ddi-rym ac wedi'u parlysu yn wyneb mater o'r raddfa hon. Ac mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn gymhleth: mae wedi'i gyplysu â sut yr ydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio gwasanaethau a chynhyrchion, sut yr ydym yn rhedeg ein busnesau a'n sefydliadau, ein llywodraethau a'n cartrefi. Mae wedi'i gyplysu â gwastraff, ailgylchu, defnyddio ynni, sut rydym yn tyfu ein bwyd, sut rydym yn teithio a sut ffyrdd o fyw sydd gennym.

Ond eto, mae modd mynd i'r afael â'r problemau mwyaf ystyfnig yr olwg. Mae pobl gyffredin, drwy weithredu gyda'i gilydd mewn grwpiau ffurfiol neu anffurfiol, wedi cyflawni pethau mawr - wedi goresgyn caethwasiaeth, wedi rhoi diwedd ar apartheid ac wedi ennill y bleidlais i fenywod.

Os yw'r sôn y dyddiau hyn am 'y cyfle olaf' i atal y newid trychinebus yn yr hinsawdd yn gwneud i chi fod eisiau cuddio o dan ddillad y gwely – yna ***dyma'r gynhadledd i chi!***

Nid ydym eisiau darlithio. Yn bendant ni wnawn bregethu. Ond fe allwn rannu gwybodaeth am sut y mae pobl, grwpiau - o bob maint - a chymunedau yn cymryd camau ystyrlon i helpu i leihau allyriannau byd-eang ac yn anad dim – ***pam y bydd yn gwneud gwahaniaeth!***

Weithiau, y cam cyntaf yw'r anoddaf - cymerwch eich cam gyntaf chi drwy gofrestru ar gyfer y digwyddiad hwn, sy'n ymdrechu i:

- **Ddarparu cyflwyniad i'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer mudiadau'r trydydd sector, yn enwedig y rheini nad ydynt yn canolbwyntio'n bennaf ar yr amgylchedd**
- **Arddangos esiamplau ysbrydoledig o fudiadau, fel eich mudiad chi, sydd eisoes yn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd**
- **Awgrymu camau ymarferol y gall mudiadau eu cymryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i'w ganlyniadau**
- **Gynnig cyfleoedd arddangos a rhwydweithio**

Cefnogir gan
BARCLAYS

Y cam cyntaf yw'r anoddaf!

– newid yn yr hinsawdd i'r rheini nad ydynt yn fudiadau gwyrdd

Rhaglen

09.45 Cofrestru, coffi ac arddangos

10.15 Croeso
Win Griffiths, Cadeirydd WCVA
a Kathy Brown, Barclays

10.30 Prif anerchiad: Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

10.55 Sut y gwnaethom hynny? Sut rydym yn profi'r model!
Emily Harvey, Stirling yn mynd yn Garbon Niwtral

Model newid ymddygiad, sy'n seiliedig ar oresgyn y rhwystrau yr ymchwiliwyd iddynt rhag sicrhau gostyngiad carbon ystyrlon, parhaus, cydweithredol, arfarniedig a dan gydberchnogaeth ymysg 35,000 o drigolion Stirling dros bedair blynedd, yw Stirling yn mynd yn Garbon Niwtral (GCNS). A all carbon fod yn iaith bob dydd? A yw'r rhan fwyaf o bobl yn barod i wneud yr ymdrech wirfoddol sy'n ofynnol i gyrraedd y targedau y mae gwyddoniaeth yn eu gosod? A allwn gynhyrchu mandad torfol ar gyfer newid polisi? Stori yw hon am sut y mae GCNS yn profi model, a'n canlyniadau hyd yma.

11.20 Hawl i holi

11.30 Te a choffi

11.50 Gweithdai: Esiamplau ysbrydoledig o'r hyn y gall y trydydd sector ei gyflawni

(1) Arferion da mewn gwaith cymdeithasol – Rick Wilson, Bywydau Cynaliadwy, Abertawe

Proses ymchwilio gydweithredol a sefydlwyd i edrych ar sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i greu modelau gofal cymdeithasol sy'n amgylcheddol, yn gymdeithasol, ac yn ariannol gynaliadwy i'w Bywydau Cynaliadwy. Cafodd y grŵp, sy'n cael ei gynnull gan Rick Wilson, ei sefydlu gan Ddinas a Sir Abertawe a'u partneriaid.

Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn datblygu nifer o brosiectau peilot ar gyfer ardal Abertawe a gan adeiladu ar egwyddorion cyd-gynhyrchu a chymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion, bydd yn archwilio sut y gall dinasyddion brofi gofal cymdeithasol effeithlon grymusol wrth i ninnau oll weithio'n galed gyda'n gilydd i greu cymunedau cynaliadwy mwy cefnogol i'w gilydd. Bydd y gweithdy hwn yn trafod y broses Bywydau Cynaliadwy cyn belled ac yn archwilio'i goblygiadau ehangach ar gyfer y dyfodol.

(2) Y Dref Werdd: Bro Ffestiniog – Sara Ashton, Prosiect Tref Werdd Blaenau Ffestiniog

Prosiect cymunedol ym Mlaenau Ffestiniog yw'r Dref Werdd a'r nod yw cefnogi'r gymuned ym Mro Ffestiniog i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd i ddatblygu dyfodol cynaliadwy a gwydn ar gyfer ni ein hunain. Drwy wneud hyn byddwn yn dod i weld yr amgylchedd fel rhywbeth gwerthfawr ac yn gofalu amdano. Mae hyn yn golygu gofalu am ein hamgylchedd lleol a chyfrannu at gynaliadwyedd byd-eang. Gwnawn hyn drwy weithio tuag at fod yn 'Dref Werdd', gyda'r safonau ar gyfer y diffiniad hwnnw'n cael eu gosod gan y gymuned ei hun. Mae'r prosiect cyn belled wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ennyn nifer fawr ac amrywiaeth eang o aelodau'r gymuned. Yn y gweithdy hwn, byddwn yn edrych ar sut yr aethom ati yma, pam y bu'r dull gweithredu hwn yn llwyddiannus, a sut y gellir ei ddefnyddio mewn cymunedau eraill ar draws Cymru.

(3) Gweithio gyda chymunedau i sicrhau newid mewn ymddygiad – Emily Harvey, Stirling yn mynd yn Garbon Niwtral

Mae'r gweithdy hwn yn archwilio sut yr ydym yn arferol wedi gwerthu ymddygiad pro-amgylcheddol ac yn benodol sut rydym yn gwerthu gostyngiad mewn carbon. Archwiliwn gyda chi'r hen sgil werthu, sef gwrando, pwysigrwydd negeseuon cadarnhaol a'r gallu i sicrhau bod eich neges i ennyn diddordeb yn bodloni'r anghenion a fynegwyd gan eich cynulleidfa. Byddwn wedyn yn gweithio gyda chi i helpu i gynllunio ac ymarfer eich strategaeth ar gyfer cysylltu â grwpiau cymunedol.

(4) Ailgylchu maethynnau a dim gwastraff - hanes gwneud busnes allan o gred – Adam Kennerley a Richard Northridge, Ymddiriedolaeth Tir Cwm Harry

Mae Cwm Harry wedi treulio deng mlynedd yn edrych ar sut y gellir harneisio deunyddiau yn hytrach na'u taflu. A sut y gellir gwneud hyn yn lleol ac yn broffidiol. Ond yn hytrach na dim ond meddwl am y peth, bu Cwm Harry yn ymarfer yr hyn y mae'n ei bregethu. Yma maent yn adrodd hanes uchafbwyntiau ac isafbwyntiau casglu gwastraff bwyd, ei drosi'n gompost ac yna ailgylchu'r maethynnau'n ôl i gynnyrch lleol a ffres. Y bobl, y partneriaethau a'r elw. Byddant yn pwyso a mesur sut y gall yr un egwyddorion – trosglwyddo'r hawliau a'r cyfrifoldebau dros weithredu i'r gymuned – gael eu defnyddio gyda'r prosiect Dim Gwastraff blaenllaw yng Nghymru y maent newydd ennill y contract ar ei gyfer.

(5) Menywod yn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd – Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched / Cynnal Cymru

Cyfle i archwilio'r modd y mae menywod yn creu Cymru fwy cynaliadwy gartref, yn y gymuned ac ym myd busnes: beth y mae eraill yn ei wneud, beth y gallwch chi ei wneud a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i wneud rhagor. Cewch glywed drosoch eich hunain brofiadau o weithio gyda phrosiect ECOTEAMS y Cynllun Gweithredu Byd-eang – ffordd hwyliog, gymdeithasol o gael arbedion sylweddol mewn gwastraff, ynni, dŵr ac arian, a chewch ddysgu sut y gallwch chi wneud eich rhan. Cewch eich ysbrydoli i weithredu ar amrywiol faterion a dysgu o ble y gallwch gael cefnogaeth.

(6) Cyflwyno'r Ganolfan Dechnoleg Amgen a Phrydain Dim Carbon 2 – Martin Kemp, y Ganolfan Dechnoleg Amgen

Mae gan y Ganolfan Dechnoleg Amgen ddewis aruthrol o weithgareddau ar eich cyfer, gan gynnwys cylchdaith i ymwelwyr, ymweliadau addysgol, cyrsiau byr ynghyd ag amrywiol raglenni i raddedigion.

Mae'r gweithdy'n dechrau drwy dynnu sylw at yr amrywiaeth hwn gyda rhai esiamplau o'r hyn sy'n digwydd yn y Ganolfan. Yna awn i edrych ar Brydain Dim Carbon. Mae hwn yn edrych ar sut y gallwn fodloni her y newid yn yr hinsawdd drwy leihau ein galw am ynni ac yna bodloni'r galw'n llwyr drwy ffynonellau adnewyddadwy. Rydym wedi dwyn ynghyd waith arweiniol mewn nifer o feysydd gan gynnwys polisïau, economeg, technoleg adnewyddadwy, effeithlonrwydd, yr amgylchedd adeiledig, defnydd tir a thrafnidiaeth. Caiff y cyfuniad hwn o brofiad ei ddwyn ynghyd i greu gweledigaeth o'r dyfodol y gallwn ni ei greu.

(7) Prosiectau cynhyrchu ynni cymunedol – Phil Powell, Ynni Gwent

Er mwyn brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd rhaid i ni leihau ein hallyriannau carbon. Un rhan bwysig o hyn yw cynhyrchu trydan di-garbon. Ychydig iawn y gall tŷ unigol ei gynhyrchu. Mae prosiectau cymunedol yn gallu cynhyrchu mwy a gallant fod o fudd i'r gymuned mewn sawl ffordd. Mae prosiect cymunedol yn wahanol iawn i brosiect unigol a phrosiect cwmnïau mawr. Y prif faterion y mae grŵp yn ei wynebu yw: cymhelliant, trefniadaeth, cyllid, technegol, cyfreithiol a dosbarthu'r manteision. Mae'r sgwrs hon yn bwrw golwg ar y problemau a'r atebion i brosiectau cynhyrchu ynni cymunedol.

13.00 Cinio, arddangosfeydd a rhwydweithio

14.00 Dysgu oddi wrth y rheini nad ydynt yn fudiadau gwyrdd
Stephen Hale, Cynghrair Gwyrdd

Stephen yw Cyfarwyddwr y Cynghrair Gwyrdd, a chadeirydd trydydd sector Tasglu'r Gweinidogion (yn Lloegr) ar y newid yn yr hinsawdd a'r trydydd sector a bydd yn cyhoeddi ei adroddiad ym mis Tachwedd. Bydd yn amlinellu prif gasgliadau'r tasglu, a'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith a wnaed gan y Cynghrair Gwyrdd gydag NCVO ac eraill ar y newid yn yr hinsawdd yn y trydydd sector an-amgylcheddol dros y 12 mis diwethaf. Y Cynghrair Gwyrdd yw melin drafod y flwyddyn yn y DU.

14.20 Ffilm: Eco Worriers – Cyflwynir gan Rhodri Thomas, Cynnal Cymru

Pennod beilot yw'r Eco Worriers ar gyfer cyfres o ffilmiau byr sy'n ceisio esbonio materion datblygu cynaliadwy mewn ffordd hwyliog, gan ddefnyddio esiamplau bywyd go iawn wedi'u cymysgu â chymeriadau ffuglennol comig. Mae'r ffilmiau'n dwyn yr actorion Boyd Clack a Rhodri Hugh Thomas ynghyd unwaith eto am y tro cyntaf ers rhaglen gomedi sefyllfa lwyddiannus BBC Cymru, Satellite City. Mae Eco Worriers yn cynrychioli dull gweithredu cyffredinol Cynnal Cymru - canfod ffyrdd newydd o gyfleu negeseuon er mwyn ysgogi'r newidiadau mawr y mae'n rhaid i ni eu gwneud os ydym am fodloni sialensiau'r unfed ganrif ar hugain.

14.40 Cysylltu â'r newid yn yr hinsawdd
Ken Peattie, Prifysgol Caerdydd

Ken Peattie yw'r Athro Marchnata a Strategaeth yn Ysgol Fusnes Caerdydd a Chyfarwyddwr Canolfan Ymchwil BRASS, sy'n cael ei hariannu gan yr ESRC ac a leolir yng Nghaerdydd; mae'n arbenigo mewn ymchwil i gynaliadwyedd busnes a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Bydd yn pwyso a mesur sut y gall gwersi o'r byd marchnata roi cipolwg ar sut i wneud y newid yn yr hinsawdd yn berthnasol ac yn ystyrlon i unigolion a mudiadau y tu hwnt i'r 'criw arferol'. Mae diddordeb ei waith ymchwil ef yn canolbwyntio ar effaith pryderon am gynaliadwyedd ar farchnata a llunio strategaethau corfforaethol; marchnata cymdeithasol ar gyfer ffyrdd o fyw iach a chynaliadwy; menter gymdeithasol a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

15.00 Gweithredu'r gair – Graham Benfield OBE, Prif Weithredwr, WCVA

Sut y mae WCVA 'yn gweithredu'r gair' ac yn rhoi arweiniad ar y newid yn yr hinsawdd i'r trydydd sector an-amgylcheddol yng Nghymru? Bydd WCVA yn rhannu'i brofiad yn ceisio dod yn fwy 'gwyrdd' yn y modd y mae'n gweithredu fel mudiad, yn ogystal ag yn y modd y mae'n gweithio gyda'r sector i annog eraill i gymryd camau cadarnhaol ar y newid yn yr hinsawdd.

15.20 Hawl i holi

15.35 Sylwadau i gloi

15.45 Te, arddangosfeydd a rhwydweithio

16.30 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol WCVA – aelodau'n unig

19.30 Derbyniad a chinio i'w cynnal yng Ngwesty'r Imperial, Llandudno
Cynhelir gan Win Griffiths, Cadeirydd WCVA

Gwestai arbennig:
Dr Brian Gibbons AC

Gwobrau Rhwydwaith Cymru – cyflwyniadau i enillwyr 2009

Gwobrau Rhwydwaith Cymru

Cefnogwyd gan
Class Telecommunications
Atebion telathrebu i'r sector gwirfoddol a chymunedol

Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd – rhai syniadau ar gyfer camau cyntaf:

- Mae gan Amgylchedd Cymru yn awr Gynllun Grantiau Newid yn yr Hinsawdd a fwriedir ar gyfer mudiadau trydydd sector, nad ydynt eto wedi cysylltu â gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Caiff y grantiau bychain hyn (o £200 hyd at uchafswm o £2000) eu defnyddio i helpu i hybu, addysgu a galluogi'r rheini nad ydynt hyd yma wedi gweithio i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Mae pecynnau ymgeisio ar gael o ofyn amdanynt gan Lein Gymorth WCVA o 31 Hydref ymlaen: help@wcva.org.uk neu 0800 2888 329.
- Mae WCVA yn cynnal cynllun grantiau bychain i alluogi grwpiau cymunedol a mudiadau trydydd sector i gynnal darllediadau o'r ffilm newid yn yr hinsawdd Oes y Dwl; bydd yr arian yn talu am gostau trwydded y ffilm, llogi lleoliad a lluniaeth. Bydd gwybodaeth i'w gweld yn fuan yn e-hysbys aelodau WCVA, ar wefan WCVA ac yn *Rhwydwaith Cymru.*
- Mae rhaglen hyfforddiant bresennol WCVA yn cynnwys cwrs newydd sbon: *Cyflwyniad i Ddatblygu Cynaliadwy.* Cafodd ei datblygu ar y cyd â WCVA ac fe'i cynhelir gan Cynnal Cymru. Mae disgrifiad o'r cwrs ar gael ar y dudalen hyfforddiant ar wefan WCVA.
- Cofiwch edrych am yr adran *Newyddion Gwyrdd* yn e-hysbys aelodau WCVA bob pythefnos, mae'n siop un stop ar gyfer gwybodaeth i'r trydydd sector am ddigwyddiadau, hyfforddiant, newyddion, polisïau a chyllid sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy.
- Arwyddwch Ddatganiad Newid Hinsawdd WCVA yn: www.wcva.org.uk
- Ymunwch â'r ymgyrch newid hinsawdd 10:10 sy'n galw am ostyngiad o 10 y cant o ollyngiadau carbon yn y DU yn 2010. Gweler www.1010uk.org.